*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 122(10)(i) o Ddeddf Caffael 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

# Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Atodlen 9 (cyflenwyr gwladwriaeth gytuniad (cytundebau rhyngwladol penodedig)) i Ddeddf Caffael 2023 ("Deddf 2023") er mwyn gweithredu penodau caffael dau gytundeb rhyngwladol yr ymrwymwyd iddynt gan y Deyrnas Unedig. Y cytundebau hyn yw'r Cytundeb ar Bartneriaeth a Chydweithredu rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Gweriniaeth Irac a lofnodwyd yn Llundain ar 14 Ionawr 2025 a'r Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu Strategol rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Kazakhstan a lofnodwyd yn Astana ar 24 Ebrill 2024.

Yn flaenorol, llywodraethid perthynas fasnachu'r Deyrnas Unedig â Gweriniaeth Irac gan y Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu rhwng yr Undeb Ewropeaidd ac Irac ("CPCh yr UE ac Irac"). Yn flaenorol, llywodraethid perthynas fasnachu'r Deyrnas Unedig â Gweriniaeth Kazakhstan gan y Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu Ehangach ("CPChE") rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Gweriniaeth Kazakhstan. Peidiodd CPCh yr UE ac Irac a'r CPChE rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Gweriniaeth Kazakhstan â bod yn gymwys i'r Deyrnas Unedig ar ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae Atodlen 9 i Ddeddf 2023 yn rhestru cytundebau rhyngwladol y mae'r Deyrnas Unedig yn barti iddynt

ac sy’n cynnwys rhwymedigaethau caffael y mae rhaid rhoi effaith iddynt yn y Deyrnas Unedig. Mae rheoliad 3 o’r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 9 i Ddeddf 2023 er mwyn adlewyrchu’r cytundebau â Gweriniaeth Irac a Gweriniaeth Kazakhstan yr ymrwymwyd iddynt gan y Deyrnas Unedig.

Mae rheoliad 4 o’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau trosiannol, fel na fydd y Rheoliadau hyn yn effeithio ar unrhyw gaffaeliad o dan Ddeddf 2023 sy’n ymwneud â’r cytundebau â Gweriniaeth Irac a Gweriniaeth Kazakhstan yr ymrwymwyd iddynt gan y Deyrnas Unedig, pan fo’r caffaeliad wedi dechrau cyn y diwrnod y daw’r cytundeb perthnasol i rym.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 122(10)(i) o Ddeddf Caffael 2023, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

# 2025 Rhif (Cy. )

# CAFFAEL CYHOEDDUS, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 89(3)(a) a 122(3)(b) a (d) o Ddeddf Caffael 2023(**2**).

Yn unol ag adran 122(10)(i) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Cytundebau Rhyngwladol Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2025.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod priodol" fel y diffinnir "appropriate authority" yn adran 123(1) o Ddeddf Caffael 2023, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn adran 111(1) o'r Ddeddf honno.

(**2**) 2023 p. 54.

mae i "awdurdod contractio" yr ystyr a roddir i "contracting authority" gan adran 2(1) o Ddeddf 2023;

ystyr "Deddf 2023" ("*the 2023 Act*") yw Deddf Caffael 2023.

**Diwygio Atodlen 9 i Ddeddf 2023**

**3.**—(1) Mae Atodlen 9 i Ddeddf Caffael 2023(**1**) (cyflenwyr gwladwriaeth gytuniad (cytundebau rhyngwladol penodedig)) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer paragraff B1 a'r penawdau italig o'i flaen ac ar ei ôl.

(3) Ym mharagraff 26 yn lle "In any case other than a procurement regulated by the Welsh Ministers, the" rhodder "The".

(4) Ym mharagraff 27 yn lle "In any case other than a procurement regulated by the Welsh Ministers, the" rhodder "The".

**Darpariaethau trosiannol**

**4.**—(1) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "CBCh y DU ac Irac" ("*the UK-Iraq PCA*") yw'r Cytundeb ar Bartneriaeth a Chydweithredu rhwng Llywodraeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Gweriniaeth Irac a lofnodwyd yn Llundain ar 14 Ionawr 2025;

ystyr "CPChS y DU a Kazakhstan" ("*the UK-Kazakhstan SPCA*") yw'r Cytundeb Partneriaeth a Chydweithredu Strategol rhwng Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Kazakhstan a lofnodwyd yn Astana ar 24 Ebrill 2024;

ystyr "cytundeb perthnasol" ("*relevant agreement*") yw, yn ôl y digwydd, CBCh y DU ac Irac neu CPChS y DU a Kazakhstan.

(2) Mae cyfeiriad at y cytundeb perthnasol yn dod i rym yn golygu, mewn cysylltiad ag—

(a) CPChS y DU a Kazakhstan, pan fo Pennod 8 (Caffael gan Lywodraethau) o Deitl III (Masnach a Busnes) yn dechrau bod yn gymwys yn unol ag erthygl 136(**2**), neu

(**1**) Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2025/163, O.S. 2025/181 (Cy. 38), ac O.S. 2025/XXX.

(**2**) Gweler hefyd erthygl 271 sy'n nodi pryd y daw'r cytundeb i rym (er gwaethaf Pennod 8). Cyhoeddwyd copi digidol o'r cytundeb yng Nghasgliad y Cyfresi Gwlad (Kazakhstan Rhif 1/2025, CP 1365), sydd ar gael ar https://www.gov.uk/government/collections/command-papers-by-country-2013.

(b) CBCh y DU ac Irac, pan ddaw'r cytundeb hwnnw i rym yn unol ag erthygl 115([1]).

(3) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan reoliad 3 yn effeithio ar unrhyw gaffaeliad sydd wedi ei ddechrau cyn y diwrnod y daw'r cytundeb perthnasol i rym os, cyn y diwrnod hwnnw—

(a) yw hysbysiad tendro wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2023 (hysbysiadau tendro a dogfennau tendro cysylltiedig),

(b) yw hysbysiad tryloywder wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 44(1) o Ddeddf 2023 (hysbysiadau tryloywder),

(c) yw hysbysiad tendro sydd o dan y trothwy wedi ei gyhoeddi yn unol ag adran 87(1)([2]) o Ddeddf 2023 (contractau rheoleiddiedig sydd o dan y trothwy: hysbysiadau), neu

(d) mewn cysylltiad â chontract sydd o dan y trothwy nad yw is-baragraff (c) yn gymwys iddo, yw awdurdod contractio wedi cysylltu â chyflenwr er mwyn dechrau dyfarniad y contract hwnnw.

*Enw*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

---

(**1**) Cyhoeddwyd copi digidol o'r cytundeb yng Nghasgliad y Cyfresi Gwlad (Irac Rhif 1/2025, CP 1356), sydd ar gael ar https://www.gov.uk/government/collections/command-papers-by-country-2013.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan O.S. 2024/782 ac O.S. 2024/959.